




Taflen Ffeithiau

Beth yw'r Cyngor Tref?

- Y llywodraeth ar lefel leol.
- Mae'n cynnwys tref Llandeilo ei hunan – hyd at yr afon Tywi, yr A40 a Pharc Dinefwr.
- Gwasanaethir tua 3,000 o bobl.
- Rhennir yn ddwy ward (Tywi a Chastell).



Beth yw gwaith y Cyngor Tref?

Gwneir sylwadau ar faterion sy'n effeithio'r dref:

- Ceisiadau cynllunio lleol
- Diogelwch traffig a heddlu
- Iechyd, lles ac addysg.

Mae ganddo rymoedd cyfreithiol i wario arian ar wasanaethau:

- Goleuadau Nadolig a rhai goleuadau stryd.
- Gwyliau a digwyddiadau, megis arddangosfeydd tân gwylt.
- Llwybrau troed, seddi cyhoeddus, gerddi a manau agored.
- Diogelwch cymunedol a gwasanaethau, megis y Ganolfan Gyngori a Chymorth i Ddioddefwyr.
- Cymorth i elusennau sy'n helpu pobl Llandeilo – rhoddwyd £5,000 yn 2008-9.

Gweithir yn unol â rheolau cyfreithiol:

- Sut rydym yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd
- Sut y dylai aelodau'r Cyngor ymddwyn
- Sut y dylid rhedeg y cyfarfodydd
- Sut mae'r arian yn cael ei wario a'i gyfrif amdano
- Sut rydym yn trin ein staff.

O ble mae'r arian yn dod?

- Mae'r rhan fwyaf ohono'n dod o dreth y Cyngor, a gesglir gan Gyngor Sir Caerfyrddin – roedd hyn yn £47,674 yn 2008-9.
- Rhent trwy brydlesu Neuadd y Sir i Archaeoleg Cambria.
- Cymorth grantiau ar gyfer prosiectau megis Llwybr Treftadaeth y Dref.



Sut mae Cyngor y Dref yn gwneud ei waith?

- Cyflogir 3 aelod o staff rhan amser – Clerc y Dref, Swyddog Cyllid a Swyddog Technegol.
- Ceir cyfarfod o'r Cyngor Llawn a phwyllgorau yn fisol heblaw am fis Awst.
- Y pwyllgor Cyllid sy'n cynllunio'r gyllideb, yn talu biliau ac yn archwilio'r gwariant.
- Mae'r pwyllgor Cynllunio yn ymdrin â materion cynllunio, cludiant, goleuadau a llwybrau troed.
- Mae grwpiau bychain o gynghorwyr yn gweithio ar brosiectau megis y Goleuadau Nadolig.

Pwy yw aelodau'r Cyngor?

- Gwirfoddolwyr brwdfrydig a gweithgar, heb fod yn derbyn tâl, ond sydd am weld y gorau i'r dref!
- Gall unrhyw bleidleisiwr sy'n byw, gweithio neu'n berchen ar eiddo o fewn 3 milltir i ganol y dref fod yn gynghorydd.
- Mae gan bob ward tua 750 o etholwr sy'n ethol 6 aelod, gan wneud cyfanswm o 12.
- Cynhelir etholiadau bob 4 blynedd – cynhelir y nesaf yn 2012.
- Os oes yna lefydd gwag wedi'r etholiad, gall y cynghorwyr chwilio am bobl addas i'w llanw.
- Mae'r Cynghorwyr yn dewis Maer a Dirprwy Faer newydd bob blwyddyn o blith ei gilydd.

Beth yw dyletswyddau'r Maer?

- Arwain gwaith y Cyngor yn ystod y flwyddyn.
- Cefnogi mudiadau a digwyddiadau lleol.
- Cynrychioli'r Cyngor yn y wasg a'r cyfryngau.
- Mae'r Dirprwy Faer yn gwneud dyletswyddau'r Maer yn ei le yn ôl yr angen.

(Dylid nodi mai teitl yw Maer, pun ai fod yr unigolyn yn ddyn neu'n fenyw! Maeres neu Gymar yw'r teitl ar gyfer y cydymaith a ddewisir gan y Maer.)

Sut allaf gysylltu â'r Cyngor Tref?

- Ysgrifennwch at Glerc y Dref, Neuadd y Sir, Heol Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AF.
- Ffôn 01558 823850. Ebostr clerk@llandeilo.gov.uk
- Gwefan www.llandeilo.gov.uk
- Edrychwch ar yr hysbysfwrdd cyhoeddus sydd yn y bwloch sy'n arwain i'r prif faes parcio o Heol Rhosmaen. Yma ceir manylion ynglŷn â chyfarfodydd a manylion am aelodau'r Cyngor.
- Cynhelir pob cyfarfod yn Neuadd y Sir a gall defnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i'r adeilad. Mae croeso i'r cyhoedd i wyllo unrhyw gyfarfod, ond ni chaniateir iddynt siarad oni bai eu bod yn cael eu gwahodd i wneud hynny.
- Mae Clerc y Dref yn Swyddfa'r Cyngor yn Neuadd y Sir bob dydd Mawrth rhwng 5 – 6pm.